

# Newyddlen

## Cronfa Pensiwn Gwynedd



Awst 2021

### Fy Mhensiwn Ar-Lein (Hunan Wasanaeth Aelodau yn flaenorol)

O Awst 2021 bydd yr Hunan Wasanaeth Aelodau yn cael ei adnabod fel Fy Mhensiwn ar-lein. Os nad ydych wedi cofrestru eto ewch i'n gwefan ar <https://aelodau.cronfabensiwnwynedd.cymru> i gofrestru. Ar ôl cofrestru gallwch:

- Rhedeg amcanestyniadau pensiwn
- Gweld manylion pensiwn
- Gweld y Datganiad Budd Blynyddol
- Gweld a Diwygio manylion personol



### A yw eich enwebiad grant marwolaeth yn cyfoes?

O'r diwrnod cyntaf byddwch yn ymuno â'r cynllun pensiwn, mae lwmp swm grant marwolaeth o **3 gwaith eich cyflog blynyddol** yn daladwy os byddwch yn marw tra mewn gwasanaeth, ac o dan 75 mlwydd oed. Dylai pob aelod o'r cynllun cwblhau ffurflen mynegiant dymuniad grant marwolaeth. Mae hyn yn eich galluogi i gynnig 1 neu fwy o unigolion neu sefydliadau i dderbyn y taliad grant marwolaeth berthnasol.

Gallwch enwebu/diweddaru eich mynegiant drwy mewngofnodi i mewn i'ch **Pensiwn Ar-Lein** neu cysylltwch â'r Gronfa os byddai'n well gennych gael copi caled. Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd y disgrisiwn terfynol ar bwy fydd yn derbyn y lwfans marwolaeth, ond byddant bob amser yn cymryd eich dymuniadau i ystyriaeth.

## Faint ydwyf yn talu?

Fel aelod actif o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rydych yn gwneud cyfraniadau i'r cynllun. Mae'r cyfraniadau hyn yn denu gostyngiad yn y dreth y byddwch yn talu.

Mae'r raddfa yr ydych yn talu yn dibynnu ar eich cyflog. Mae'r bandiau cyflog o 1af o Ebrill 2021 wedi'u hamlinellu isod. Mi fydd yr amrediad cyflog ar gyfer pob band cyfraniadau yn newid bob mis Ebrill, yn unol â chostau byw:



Gwir dâl pensiynadwy:	Cyfraniad:
Hyd at £14,600	5.5%
£14,601 i £22,900	5.8%
£22,901 i £37,200	6.5%
£37,201 i £47,100	6.8%
£47,101 i £65,900	8.5%
£65,901 i £93,400	9.9%
£93,401 i £110,000	10.5%
£110,001 i £165,000	11.4%
Mwy na £165,001	12.5%

Mae'n ddyletswydd ar eich cyflogwr i roi gwybod i chi pa fand cyfrannu yr ydych yn ei dalu. Os ydych yn credu eich bod wedi'ch gosod yn y band anghywir, cysylltwch a'ch cyflogwr.

## Codiad Pensiwn



Mae pensiynau gohiriedig, Pensiynau mewn taliad a'r elfen gyfartalog Gyrfu o fuddion pensiwn ar gyfer aelodau actif yn cael eu hailbriso bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar gyfer Ebrill 2021 roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.5% i'r buddion.

## Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Sefydlwyd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) gan y Llywodraeth i helpu i sicrhau bod gan bobl ledled Cymru a'r DU fynediad i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau ariannol effeithiol trwy gydol eu hoes. Maent yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus a'u gweledigaeth yw bod pawb yn gwneud y gorau o'u harian a'u pensiynau. Mae'r MaPS yn dwyn ynghyd dri darparwr uchel eu parch o ganllawiau ariannol diduedd am ddim:

- Gwasanaeth Cyngor Arian
- Pensiwn Doeth
- Y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau

Eu gweledigaeth yw 'pawb yn gwneud y gorau o'u harian a'u pensiynau'. Mae mwy o wybodaeth am y gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig ar gael ar eu gwefan:

<https://maps.org.uk/cy/home-2/>

## Dad- fuddsoddi o danwyddau ffosil

Mae yna drafodaethau wedi ei gynnal yn ddiweddar ynglŷn â Chronfa Bensiwn Gwynedd yn dad-fuddsoddi o danwyddau ffosil gyda nifer o geisiadau ynglŷn â gosod amserlen uchelgeisiol tuag at ddad-fuddsoddi yn gyfan gwbl o danwyddau ffosil, ond fel ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn mae'n fwy cyfrifol i ni gynllunio'n briodol, cymryd camau go wir, a dylanwadu lle'n bosib er lles ein hamgylchedd.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddyletswydd ymddiriedol i holl gyflogwyr y cynllun, eu staff a'u pensiynwyr. Y 'fiduciary duty' yma, yn bennaf, sy'n llywio penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau. Nid yw'r Gronfa yn dad fuddsoddi am resymau anariannol yn unig, yn anad dim oherwydd gallai hyn arwain at her gyfreithiol.

Buddsoddi'r asedau'r Gronfa Bensiwn er mwyn darparu enillion ariannol i sicrhau diogelwch ariannol staff a phensiynwyr. Mae dychweliadau hefyd yn lleihau cost i'r cyflogwyr, sydd wedyn yn lleihau'r gost i dalwyr Treth Cyngor, neu yn osgoi torri gwasanaethau lleol. Mae hwn yn gyfrifoldeb cymdeithasol pwysig y mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ymwybodol iawn ohono.

Fodd bynnag, mae rheolwyr a'r Pwyllgor Pensiynau wedi bod yn gweithio ers peth amser i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd, ein hymgynghorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Mae datgan fwy manwl ynglŷn â dad-fuddsoddi o danwyddau ffosil i'w weld ar ein gwefan.



---

## Dyfarniad McCloud

Pan newidiodd yr CPLIL o gyflog terfynol i Gynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn 2014, cyflwynwyd amddiffyniadau i aelodau hŷn y cynllun (y cyfeirir atynt fel 'Tanategiad / Underpin'. Darparwyd amddiffyniadau tebyg yng nghynllun pensiwn arall y sector cyhoeddus. Dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o Gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd nad yw'r amddiffyniadau'n berthnasol iddynt.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r holl gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y CPLIL, i gael gwared ar y gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran a nodwyd yn nyfarniad McCloud.

Yn y CPLIL, mae'r Llywodraeth yn cynnig rhoi amddiffyniad sy'n hafal i'r amddiffyniad a ddarperir i aelodau hŷn i aelodau iau cymwys pan newidiwyd y Cynllun yn 2014. Os ydych chi'n gymwys i gael eich amddiffyn, bydd yn berthnasol yn awtomatig – **nid oes angen i chi wneud hawliad.**

## Cap Ymadael Y Sector Cyhoeddus

Sylwch y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â thaliadau ymadael na ellir ei cyfiawnhau. Fe'i gelwir yn gap ymadael y sector cyhoeddus. Bydd y cap yn cyfyngu ar faint o arian y gall cyflogwr yn y sector cyhoeddus ei dalu pan fydd gweithiwr yn gadael ei gyflogaeth. Nid yw'r Llywodraeth wedi cadarnhau eto pryd y bydd y cap ymadael neu ddiwygiadau pellach yn cael eu cyflwyno.

Os yw'r rheoliadau yn newid, efallai bydd angen lleihau eich buddion CPLIL pan fyddwch chi'n ymddeol ar sail diswyddo neu effeithlonrwydd.

## Byddwch yn ScamSmart gyda'ch Pensiwn

- Os ydych yn ystyried trosglwyddo eich pensiwn, dylech fod yn ymwybodol o Sgamiau Pensiwn. Yn yr amseroedd yma o ansicrwydd ariannol, rydym yn gofyn i chi fod yn hynnod o ofalus. Gall sgamwyr fod yn groyw ac yn wybodur yn ariannol, gyda gwefannau, tystebau a deunyddiau credadwy sy'n anodd eu gwahaniaethu o'r peth go iawn. Mae sgamwyr yn dylunio cynigion deniadol i'ch perswadio i drosglwyddo'ch pot pensiwn iddynt neu i ryddhau arian ohono. Dyma bedwar cam syml i'ch amddiffyn eich hun rhag sgamiau pensiwn:
- **Gwrthod cynnigion annisgwyl** - Os cysylltwyd â chi yn annisgwyl ynglŷn â'ch pensiwn, mae'n debygol y bydd yn risg uchel neu'n sgam. Byddwch yn wylidwrus o gynigion adolygu pensiwn am ddim.
- **Gwiriwch gyda phwy rydych chi'n delio** – Gwiriwch y Cofrestr Gwasanaeth ariannol ([www.register.fca.org.uk](http://www.register.fca.org.uk)) i gwneud yn saff bod unrhyw un sydd yn cynnig cyngor neu unrhyw gwasanaeth ariannol i chi yn FCA-awdurdodedig.
- **Osgoi cael eich rhuthro neu dan bywsau i wneud penderfyniad** – Cymerwch eich amser i wneud y gwiriadau yr ydych eich angen.
- **Derbyn gwybodaeth a cyngor diduedd** – Edrychwch ar Gwasanaeth Arian a Phensiynau, 'Pension Wise' ac Cyngor Ariannol.

Am fwy o wybodaeth neu os ydych yn amau sgâm, adroddwch ef i:

- Financial Conduct Authority (FCA) – 0800 111 6768 or [www.fca.org.uk](http://www.fca.org.uk)
- Action Fraud – 0300 123 2040 or at [www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk)
- Money Helper - [www.moneyhelper.org.uk/cy](http://www.moneyhelper.org.uk/cy)



## Manylion Cyswllt

Rhif Ffôn:	01286 679982
E-bost:	<a href="mailto:pensiynau@gwynedd.llyw.cymru">pensiynau@gwynedd.llyw.cymru</a>
Cyfeiriad:	Cronfa Bensiwn Gwynedd Stryd Y Jêl Caernarfon Gwynedd LL55 1SH